GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales	**Rhif Cyfeirnod:** AW16 – TP06 **Rhif Fersiwn:**1.0 **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:**08/12/2026

GWEITHDREFN RHEOLI ASEDAU GWYBODAETH

Cyflwyniad a Nod

Mae'r Polisi Llywodraethu Gwybodaeth yn nodi bod gofyn i Gyfarwyddiaethau gael Cofrestr Asedau Gwybodaeth sy'n manylu ar eu hasedau gwybodaeth allweddol. Bydd y weithdrefn hon yn nodi'r ffordd y caiff asedau gwybodaeth eu rheoli gyda Chofrestr Asedau Gwybodaeth (CAG)

Polisïau, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Cysylltiedig

Polisi Llywodraethu Gwybodaeth

Cwmpas

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol ar hyn o bryd i'r asedau hynny sy'n cynnwys data personol (gweler para 2 isod). Mae'r weithdrefn yn berthnasol i holl staff Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd	Mae'r weithdrefn hon yn amodol ar yr AEGI a gwblhawyd ar gyfer y Polisi Llywodraethu Gwybodaeth Polisi AEGI Llywodraethu Gwybodaeth
Cymeradwywyd gan	y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth
Dyddiad Cymeradwyo	08/12/2022
Dyddiad Adolygu	08/12/2026
Dyddiad Cyhoeddi:	11/01/2023
Cyfarwyddwr/ Cyfarwyddwr Gweithredol Atebol	Rhiannon Beaumont-Wood Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsys a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd.
Awdur	Katie Donelon Pennaeth Rheoli Cofnodion

Ymwadiad

Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydych chi'n ei defnyddio yw'r un ddiweddaraf naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu'r Tim Llywodraethu Corfforaethol.

Crynodeb o adolygiadau/gwelliannau				
Rhif fersiwn	**Dyddiad Adolygu**	**Dyddiad Cymeradwyo**	**Dyddiad cyhoeddi**	**Crynodeb o'r Gwelliannau**
1.0	01/10/2022	08/12/2022		Y rhifyn cyntaf

1. Cyflwyniad

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cynnal Cofrestr Asedau Gwybodaeth, sy'n cofnodi pob achos lle mae data personol yn cael ei gadw gan y sefydliad.

Nid oes gweithdrefn benodol i'w dilyn ar gyfer y Gofrestr Asedau Gwybodaeth gan fod cysylltiad agos rhyngddi a'r Weithdrefn Asesu Effaith Diogelu Data. Fodd bynnag, mae'r ddogfen hon yn nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth ac yn darparu dolenni i'r gweithdrefnau eraill.

2. Diffinio Ased Gwybodaeth

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n mabwysiadu'r diffiniad sy'n cael ei ddarparu gan yr Archifau Cenedlaethol sy'n diffinio ased gwybodaeth fel...

> *... corff o wybodaeth, wedi'i ddiffinio a'i reoli fel un uned fel y gellir ei ddeall, ei rannu, ei ddiogelu a manteisio arno'n effeithlon. Mae gan asedau gwybodaeth werth, risg, cynnwys a chylchoedd bywyd adnabyddadwy a hydrin.*

Yn amlwg mae'r diffiniad hwn yn agored i ddehongliad eithaf eang a gall enghreifftiau o asedau gwybodaeth gynnwys:

- Cronfeydd data
- Taenlenni
- Adroddiadau
- Cofnodion (gan gynnwys rhai staff a chleifion / defnyddwyr gwasanaeth)
- Systemau (ar gyfer yr wybodaeth sydd ynddynt)

Gellir rhannu asedau gwybodaeth yn fras yn ddau gategori: Y rhai sy'n cynnwys data personol, a'r rhai nad ydynt. Ar hyn o bryd, dim ond yr asedau hynny sy'n cynnwys data personol sy'n cael eu nodi ar y Gofrestr Asedau Gwybodaeth.

Data personol yw'r term a ddefnyddir yn neddfwriaeth Diogelu Data'r DU ac fe'i diffinnir fel:

> *'Unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw sydd wedi'i adnabod neu sy'n adnabyddadwy'*

Ond dim ond rhan o'r darlun yw hyn. Dim ond i unigolion *byw* y mae deddfwriaeth diogelu data yn berthnasol, ond mae dyletswydd cyfrinachedd y gyfraith gyffredin yn estyn i'r ymadawedig. Mae

angen cyfeirio'n aml felly at yr ymadrodd *gwybodaeth bersonol adnabyddadwy (GBA)* pan nad yw data personol yn cwmpasu'r sefyllfa. Fodd bynnag, gan y dylai'r ddau gael yr un lefelau o ddiogelwch a chyfrinachedd, er byrdra drwy gydol y ddogfen hon, defnyddir y term data personol i gyfeirio at y ddau.

3. Y Gofrestr Asedau Gwybodaeth

Fel rheolydd data, mae'n ofynnol i ICC gynnal cofnod o'r holl weithgareddau prosesu data. Cyflawnir hyn drwy gynnal Cofrestr Asedau Gwybodaeth (CAG), lle cofnodir yr holl weithgareddau prosesu.

Rhaid i bob Ased Gwybodaeth sy'n ymwneud â phrosesu data personol fod yn destun Asesiad Effaith Diogelu Data (AEDD). Disgrifir hyn yn llawn yn y Weithdrefn AEDD, ond i grynhoi mae'r AEDD mewn dwy ran, ac yn dibynnu ar lefel y risg dan sylw efallai bydd gofyn cwblhau dim ond rhan 1 neu'r AEDD llawn.

4. Perchnogion Asedau Gwybodaeth a gweinyddwyr

Y Perchennog Ased Gwybodaeth (PAG) fydd y sawl o fewn y Gyfarwyddiaeth neu'r maes busnes sy'n gyfrifol am reoli'r ased gwybodaeth. Rhaid neilltuo perchnogion i bob ased unigol, er ei bod yn eithaf derbyniol i'r un person fod yn gyfrifol am berchnogaeth sawl ased. Fel arfer bydd y PAG yn uwch reolwr yn y Gyfarwyddiaeth neu'r maes busnes sydd mewn sefyllfa i gymryd cyfrifoldeb am yr ased a gwneud penderfyniadau am ei ddefnyddio.

Rôl y Gweinyddwr Ased Gwybodaeth (GAG) fydd cefnogi'r PAG i gynnal yr Asedau Gwybodaeth.

Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i Berchnogion a Gweinyddwyr.

5. Asesiadau Effaith Asedau Gwybodaeth

Mae'r Asesiad Effaith Asedau Gwybodaeth yn archwiliad blynyddol o Asedau Gwybodaeth, er mwyn galluogi ICC i ddangos ei fod yn llwyr ddeall yr asedau sydd o dan ei reolaeth. Nid oes angen iddo ddyblygu'r hyn sydd eisoes yn yr AEDD, ond dylid ei ddefnyddio i gadarnhau bod yr AEDD yn dal i fod yn gyfredol, yn ddilys ac yn gywir. Fe'i defnyddir hefyd i nodi risgiau newydd sy'n gysylltiedig â'r ased ac mae hefyd yn sicrhau bod y PAG yn ymwybodol o'r effeithiau y byddai colli'r Ased neu ddiffyg argaeledd yr Ased yn eu cael ar y maes busnes.

Mae'r AEAG yn cynnwys gwybodaeth am leoliad, maint a pherchennog yr ased yn ogystal â manylion unrhyw ddogfennau cysylltiedig, megis Asesiadau Effaith Diogelu Data (AEDD) a ysgrifennwyd ar gyfer prosiectau penodol neu brosesu newydd, ac unrhyw drydydd partïon rydym yn rhannu'r data hwnnw gyda nhw, neu sy'n cwblhau prosesu ar ein rhan.

Bydd y cyfrifoldeb am reoli'r rhaglen archwilio flynyddol yn perthyn i'r Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth, tra bydd y cyfrifoldeb am gwblhau'r AEAG blynyddol yn perthyn i'r Perchennog Ased Gwybodaeth, gyda chymorth y Gweinyddwr Asedau.

6. Rolau a Chyfrifoldebau

Bydd y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn:

- Cynnal Cofrestr Asedau Gwybodaeth i'r sefydliad
- Sicrhau bod cofnod yn cael ei wneud ar y Gofrestr Asedau Gwybodaeth ar gyfer pob AEDD sydd wedi'i gwblhau.
- Darparu hyfforddiant i Berchnogion Asedau Gwybodaeth
- Cynnal rhaglen archwilio flynyddol o Asedau Gwybodaeth

Bydd aelodau'r Tîm Gweithredol yn:

- Cymeradwyo creu Asedau Gwybodaeth newydd o fewn eu maes cyfrifoldeb
- Sicrhau bod PAG yn cael ei nodi ar gyfer pob ased o fewn eu maes cyfrifoldeb

Bydd Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn:

- Sicrhau bod Asedau Gwybodaeth y maent yn gyfrifol amdanynt yn cael eu rheoli yn unol â'r weithdrefn hon
- Sicrhau bod Asesiadau Effaith Asedau Gwybodaeth yn cael eu cwblhau ar gyfer pob ased o dan eu rheolaeth
- Sicrhau bod Asesiad Effaith Diogelu Data ar waith ar gyfer pob ased sy'n ymwneud â phrosesu data personol (gweler uchod)
- Cymryd rhan mewn archwiliad blynyddol o Asedau Gwybodaeth y maent yn gyfrifol amdanynt

Bydd Gweinyddwyr Asedau Gwybodaeth yn:

- Cefnogi'r PAG i gynnal yr Asedau Gwybodaeth y maent yn gyfrifol amdanynt

7. Gweithdrefn

Nid oes gweithdrefn benodol ar gyfer cynnal neu gyfrannu at y Gofrestr Asedau Gwybodaeth ond mae'r Gofrestr yn cael ei chynnal trwy

Mae cynnal y Gofrestr Asedau Gwybodaeth yn destun Gweithdrefn Weithredu Safonol a gedwir gan y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth.

Cynhyrchir asedau gwybodaeth newydd trwy'r weithdrefn AEDD.

8. Gofynion hyfforddi

Y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer y rhai sydd â chyfrifoldebau o dan y weithdrefn hon.

9. Monitro cydymffurfiaeth

Bydd y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn monitro'r weithdrefn hon i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol a sicrhau ei bod wedi'i gweithredu'n effeithiol.

Bydd y Gofrestr Asedau Gwybodaeth yn cael ei monitro gan y Pennaeth Rheoli Cofnodion i sicrhau ei bod yn gywir ac yn gyfredol.

10. Rheoli Cofnodion

Mae'r holl Asedau Gwybodaeth yn cynnwys cyfres o gofnodion. Mae'r rhain i'w trin yn unol â'r Polisi Rheoli Cofnodion a'r Weithdrefn Cadw a Dinistrio. Ar hyn o bryd, mae yna Ganllawiau Dros Dro ar Gadw a Dinistrio a dylid dilyn y ddogfen hon hyd nes y clywir yn wahanol.

11. Lleoliad

Cedwir y Gofrestr Asedau Gwybodaeth o fewn SharePoint Online ac fe'i rheolir gan y Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r Gofrestr Asedau yn seiliedig ar lyfrgell ddogfennau sy'n dal yr holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r asedau unigol.

12. Rhagor o Wybodaeth

Mae'r Archif Genedlaethol yn rhoi arweiniad a chyngor ar Gofrestri Asedau Gwybodaeth.
http://www.nationalarchives.gov.uk/documents/information-management/info-asset-register-factsheet.pdf